# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 4 Mehefin 2014** |
| Amser: | **09.16 – 11.49** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_04_06_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews AC**<br>**Rebecca Evans AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Darren Millar AC**<br>**Lynne Neagle AC**<br>**William Powell AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Lindsay Whittle AC** |
| Tystion: | **Mark Drakeford AC, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.**<br>**Dr Sandra Sandham, Llywodraeth Cymru**<br>**David Thomas, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)**<br>**Philippa Watkins (Ymchwilydd)** |

TRAWSGRIFIAD
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor, y Gweinidog a'i swyddogion a'r cyhoedd i'r cyfarfod.
1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Kirsty Williams.

## 2 Ymchwiliad i wasanaethau orthodontig yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 3

2.1 Bu'r Gweinidog yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.
2.2 Cytunodd y Gweinidog i ofyn i'r Athro Stephen Richmond ystyried yr angen am isafswm oedran ar gyfer atgyfeirio at wasanaethau orthodontig, ar wahân i'r 2% o blant a ddyfynnwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol fel rhai sydd wedi'u nodi i fod ag angen am atgyfeirio cynnar.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd blaenorol.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5 ac o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) ar gyfer eitem 6

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Ymchwiliad i'r mynediad at dechnolegau meddygol - ystyried y materion allweddol

5.1. Bu'r Pwyllgor yn trafod y materion allweddol sy'n codi o'r ymchwiliad.
5.2 Nododd y Pwyllgor ei farn bod angen ymchwilio ymhellach i fynediad at dechnolegau meddygol o fewn gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol cyn cwblhau'r ymchwiliad hwn. Cytunodd y Pwyllgor i wahodd cynrychiolwyr o Gymdeithas Feddygol Prydain, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol, ac unrhyw sefydliadau perthnasol eraill, i ystyried y materion hyn ymhellach.

## 6 Ystyried blaenraglen waith y Pwyllgor ar gyfer tymor yr hydref 2014

6.1 Cytunodd y Pwyllgor:

- I gynnal ymchwiliad i gyffuriau penfeddwol cyfreithlon yn nhymor yr hydref. Bydd y Pwyllgor yn ystyried ei ddulliau mewn perthynas â'r ymchwiliad maes o law;

- i wahodd y Comisiynydd Pobl Hŷn i roi tystiolaeth yn ystod tymor yr hydref, yn arbennig i drafod ei hadolygiad o ofal preswyl a'i hadroddiad blynyddol;

- i wahodd y Prif Swyddog Meddygol i ddod i sesiwn graffu gyffredinol yn nhymor yr hydref fel rhan o raglen y Pwyllgor o graffu ar Brif Weithwyr Iechyd Proffesiynol Cymru;

- i wahodd swyddogion y Llywodraeth i roi briff ffeithiol yn nhymor yr hydref ar y rheoliadau sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, unwaith y bydd rheoliadau drafft yn cael eu cyhoeddi;

- i godi, ymhlith pethau eraill, y materion a ganlyn gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y sesiwn graffu gyffredinol a drefnwyd ar gyfer 16 Gorffennaf:

    - adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar reoli cyflyrau cronig;

    - recriwtio, cadw a hyfforddi meddygon teulu;

    - adroddiadau diweddar ar amseroedd aros ar gyfer llawdriniaeth ar y galon;

- ystyried materion ynghylch proses gwyno GIG Cymru, i'w lywio'n benodol gan yr adroddiad ar yr Adolygiad o Ymdrin â Phryderon a Chwynion yn GIG Cymru, o dan arweiniad Keith Evans, unwaith y bydd yr adroddiad ar gael.